# ARDAL o HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL

# Bryniau Clwyd


**Cyswllt:**
**Howard Sutcliffe** – Swyddog AHNE
**David Shiel** – Uwch Swyddog Cefn Gwlad
Parc Gwledig Loggerheads,
Loggerheads,
Yr Wyddgrug
CH7 5LH
Ffôn:
01352 810 614
E-mail:
howard.sutcliffe@sirddinbych.gov.uk
david.shiel@sirddinbych.gov.uk
www.ahnebryniauclwyd.org.uk


## CYNLLUN Rheoli 2004


Dylunio: Carl Rogers
Ffotograffiaeth: Carl Rogers, Mick Sharp a Cyngor Sir Ddinbych







# Tabl Cynnwys


## Cyflwyniad 5

Strwythur y Cynllun 6
Aims of the Management Plan 6

## ADRAN UN Dynodiad AHNE 9

AHNE Bryniau Clwyd 1983 – 2003 10
Cyd-destun y Cynllun Rheoli 12
Polisïau Ewropeaidd 12
National Policies – Wales 13
Relevant UK Policies and Legislation 14
Local Policies 15
Voluntary Sector Involvement 16
A Protected Landscape Network 16
The Management Plan Process 18

## ADRAN DAU Hanfod y Bryniau 21

LANDMAP 22
Dylanwad Dyn 24
Daeareg 26
Bioamrywiaeth 27

## ADRAN TRI Nodweddion Arbennig Bryniau Clwyd 29

Rhestr Nodweddion Arbennig 24
Gweledigaeth ar gyfer Bryniau Clwyd 25
Adroddiad Cyflwr yr AHNEt 31

## ADRAN PEDWR Rheoli Bryniau Clwyd 37

Egwyddorion Sylfaenol 37
Cynaladwyedd 37
Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth 38
Cynnwys Eraill 39
Amddiffyn ein Treftadaeth 40
Polisïau 41

**ADRAN PUMP** Amcanion a Gweithredoedd ar gyfer Nodweddion Arbennig 43

**Bioamrywiaeth** 43

- Glaswelltir Calch a Phalmant 43
- Coedlannau brasddeiliog 44
- Gweundir grugog 49
- Dyffrynnoedd Afonydd 51

**Amgylchfyd Hanesyddol** 53

- Bryngaerau, Henebion Rhestredig ac Archaeoleg 53
- Nodweddion Hanesyddol Bychain 55
- Ffiniau 56

**Mynediad ac Adloniant** 58

- Parciau Gwledig 58
- Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa 62
- Rhwydwaith Hawliau Tramwy 64

**Diwylliant a Phobl** 67


- Yr Amgylchfyd Adeiliedig 67
- Cymunedau Cynaliadwy 67

**ADRAN CHWECH** Tabl Gweithredu 73

**Atodiad Un** Ymgynghori 77

**Atodiad Dau** Other Relevant Plans 79

**Atodiad Tri** Y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol 80





# Cyflwyniad

# Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd 2004

## Cyflwyniad

Mae Ardaloedd Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried fel rhai o dirweddau gorau Prydain ac ynghyd â Pharciau Cenedlaethol mae eu cymeriad arbennig yn cynrychioli'r darnau gorau a mwyaf gwerthfawr o gefn gwlad.


Sefydlodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 am y tro cyntaf fframwaith ar gyfer eu rheoli a'u hamddiffyn, ac felly cychwynnodd oes newydd ar gyfer yr ardaloedd hyn. Mae'r fframwaith statudol newydd hwn yn rhoi mwy o gryfder i rai sy'n gyfrifol am warchod yr ardaloedd hyn ac yn sefydlu strwythur cadarn a fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer eu rheoli.

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r llwybr hwnnw i well rheolaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd. Mae'n nodi'r nodweddion arbennig hynny sy'n llunio'r dirwedd, o gynefinoedd bywyd gwyllt cenedlaethol bwysig i'r cofebion hanesyddol. Ond wrth adnabod y nodweddion hyn mae hefyd yn cydnabod bod y dirwedd yn deillio cymaint o'r cymunedau ynddi ac o'i hamgylch, sy'n byw, gweithio a mwynhau amser hamdden yn yr ardal ag y mae o'r nodweddion ffisegol caled.

Mae'r cynllun yn nodi'r pwysau a'r pynciau sy'n effeithio'r Nodweddion Arbennig hyn ac yn nodi rhaglen i ymateb i'r pwysau. Mae camau penodol wedi eu hadnabod a fydd yn helpu targedu cyllid dros y pum mlynedd nesaf a sicrhau bod nodweddion arbennig yr ardal yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Mae cyfraniad pawb sy'n chwarae rhan yn y gwaith o reoli Bryniau Clwyd wedi bod yn garreg filltir wrth nodi agenda ar gyfer y dyfodol. Dim ond gyda chyfraniad pawb – y cymunedau lleol, ffermwyr, tirfeddianwyr, ymwelwyr a chyrff cyhoeddus – yr ydym wedi medru cytuno gweledigaeth ar gyfer dyfodol yr AHNE. Mae'r broses wedi helpu sicrhau bod datblygiadau Bryniau Clwyd yn cydymffurfio gydag amcanion a gefnogir yn llawn.

Yn hyn o beth mae'r cynllun hwn yn pennu agenda nid yn unig i'r Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu, ond hefyd i'r unigolion, asiantaethau, grwpiau a chyrff y mae eu gweithgareddau yn cael effaith ar y dirwedd ac sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar ei dyfodol.





## Strwythur y Cynllun

**Adran 1** IDynodiad AHNE - Cyflwyno AHNE Bryniau Clwyd, yn nodi cefndir y dynodiad, esbonio'r angen am y cynllun rheoli newydd hwn a'i ddodi mewn cyd-destun gyda chynlluniau a pholisiau eraill.

**Adran 2** 'Hanfod Bryniau Clwyd' - disgrifio cymeriad unigryw'r bryniau sydd wedi arwain at eu dynodi fel AHNE.

**Adran 3** 'Nodweddion Arbennig Bryniau Clwyd – Mae'r adran hon yn adnabod y Rhestr o Nodweddion Arbennig ar gyfer Bryniau Clwyd. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn crybwyll rhai o'r pwysau a'r pynciau sy'n effeithio'r AHNE ac mae'n cynnwys Adroddiad Cyflwr yr AHNE. Mae Adroddiad Cyflwr yr AHNE yn ffurfio sylfaen y cynllun cyfan gan ei fod yn nodi cyflwr presennol amrywiol elfennau'r dirwedd sydd fwyaf gwerthfawr ac mae'n adnmabod y prif bwysau sy'n eu heffeithio, sy'n galluogi i amcanion dilynol ganolbwyntio ar y materion hynny.

**Adran 4** 'Nodweddion Arbennig Bryniau Clwyd – Mae'r adran hon yn adnabod y Rhestr o Nodweddion Arbennig ar gyfer Bryniau Clwyd. Mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn crybwyll rhai o'r pwysau a'r pynciau sy'n effeithio'r AHNE ac mae'n cynnwys Adroddiad Cyflwr yr AHNE. Mae Adroddiad Cyflwr yr AHNE yn ffurfio sylfaen y cynllun cyfan gan ei fod yn nodi cyflwr presennol amrywiol elfennau'r dirwedd sydd fwyaf gwerthfawr ac mae'n adnabod y prif bwysau sy'n eu heffeithio, sy'n galluogi i amcanion dilynol ganolbwyntio ar y materion hynny.

**Adran 5 / 6** Amcanion a Chamau ar gyfer y Nodweddion Arbennig – Mae'r Adran hon yn pennu'r amcanion a'r camau allweddol mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn Adroddiad Cyflwr yr AHNE. Mae'n pennu agenda gweithredu dros y pum mlynedd nesaf ar gyfer pob Nodwedd Arbennig, sy'n gysylltiedig gyda thargedau realistig a mesuradwy.

## Amcanion y Cynllun Rheoli


i. Pennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr AHNE yn canolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni

ii. Sefydlu Cynllun Gweithredu yn nodi blaenoriaethau tymor byrrach a gweithgareddau a fydd yn cyfrannu i gyflawni'r weledigaeth hirdymor.

iii. Creu ymrwymiad a rennir i weithredu'r cynllun gweithredu a'r cynigion ar gyfer hyn.

iv. Sefydlu trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith gweithredu.

# LLEOLIAD • LOCATION






Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint Y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Ddinbych. LA09008L. 2000.

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Denbighshire County Council. LA09008L. 2000.

© Cyngor Sir Ddinbych 2000.

© Denbighshire County Council 2000.


Dyluniwyd a chynhyrchwyd y map gan RJS Associates mewn cyd-weithrediad â Gwasanaeth Cefn Gwlad Ddinbych.

Map designed and produced by RJS Associates in association with Denbighshire Countryside Service.

